Wales Office
Swyddfa Cymru

# ARAITH Y FRENHINES 2012

## Anerchiad Ysgrifennydd Gwladol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, 23 Mai 2012

Cyflwynwyd Rhaglen Ddeddfwriaethol y Llywodraeth ar gyfer Ail Sesiwn y Senedd gan Ei Mawrhydi'r Frenhines ar 9 Mai 2012.

## BILIAU A FYDDAI'N BERTHNASOL I GYMRU

| Bil | Pwrpas |
|---|---|
| **Bil Diwygio Bancio** | Bil i gorlannu gwasanaethau bancio hanfodol a rhoi blaenoriaeth i adneuwyr, yn unol ag argymhellion y Comisiwn Annibynnol ar Fancio. |
| **Bil Troseddau a Llysoedd** | Bil i sefydlu Asiantaeth Troseddau Genedlaethol i fynd i'r afael â throseddau difrifol, cyfundrefnol a chymhleth a chryfhau diogelwch ffiniau. Bydd mesurau yn diwygio ac yn moderneiddio'r gwasanaeth llysoedd a thribiwnlysoedd ymhellach, i wella effeithlonrwydd, tryloywder ac amrywiaeth y farnwriaeth. |
| **Bil Difenwi** | Bil i ddiwygio cyfraith difenwi. Bydd hyn yn adfer cydbwysedd y gyfraith i roi mwy o ryddid i lefaru, gan sicrhau bod pobl sydd wedi cael eu difenwi yn gallu diogelu eu henw da. Mae'r bil hwn wedi cael ei graffu cyn y broses ddeddfu. |
| **Bil Cofrestru Etholiadol a Gweinyddu Etholiadol** | Bil i gyflwyno cofrestru etholiadol yn unigol a gwella meysydd eraill gweinyddu etholiadol. Mae'r rhan fwyaf o'r darpariaethau wedi cael eu craffu cyn y broses ddeddfu. |
| **Bil Ynni** | Bil i ddiwygio'r farchnad drydan a sefydlu rheoleiddiwr niwclear annibynnol. |
| **Bil Diwygio Deddfwriaethol a Menter** | Bil i hyrwyddo menter a marchnadoedd teg, gan gynnwys darpariaethau Banc Buddsoddi Gwyrdd, Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd newydd a diwygio tribiwnlysoedd cyflogaeth. |
| **Bil yr Undeb Ewropeaidd (Cymeradwyo Penderfyniad i Ddiwygio Cytuniad)** | Bil i gyflwyno gwelliant i Gytuniadau'r Undeb Ewropeaidd dan gyfraith y DU gan gadarnhau gallu aelod-wladwriaethau ardal yr ewro i sefydlu dull o gael sefydlogrwydd ariannol yn ardal yr ewro. |
| **Bil Derbyn Croatia** | Bil i gyflwyno derbyn Croatia i'r Undeb Ewropeaidd, fel a ragwelir, dan gyfraith y DU. |
| **Bil Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Bwydydd** | Bil i sefydlu Dyfarnwr annibynnol ar gyfer y Cod Cyflenwi Bwydydd i sicrhau bod archfarchnadoedd yn delio â chyflenwyr yn deg ac yn gyfreithlon. Mae'r bil hwn wedi cael ei |

| | |
|---|---|
| | graffu cyn y broses ddeddfu. |
| **Bil Diwygio Tŷ'r Arglwyddi** | Bil i newid cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi. Mae'r bil hwn wedi cael ei graffu cyn y broses ddeddfu. |
| **Bil Cyfiawnder a Diogelwch** | Bil i atgyfnerthu'r broses o oruchwylio asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth; darparu ar gyfer gweithdrefnau deunyddiau caeedig mewn rhai achosion sifil; ac atal datgelu rhai deunyddiau mewn achosion barnwrol, yn groes i les y cyhoedd, gan gynnwys deunyddiau a rennir â'r DU gan ei gynghreiriaid. |
| **Bil Pensiynau** | Bil i ddiwygio system pensiwn y wladwriaeth a chreu sylfaen deg, syml a chynaliadwy ar gyfer cynilo preifat. |
| **Bil Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus** | Bil i ddiwygio pensiynau gwasanaethau cyhoeddus yn unol ag argymhellion yr adroddiad a baratowyd gan y Comisiwn Annibynnol ar Bensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus. |
| **Bil Rhoddion Bach** | Bil i alluogi elusennau i hawlio taliadau ychwanegol, yn debyg i Gymorth Rhodd, ar roddion bach y byddant yn eu casglu, heb orfod cael datganiad Cymorth Rhodd. |
| **Bil Data Cyfathrebu Drafft** | Bil i gynnal gallu asiantaethau cudd-wybodaeth a gorfodi'r gyfraith i gael gafael ar ddata cyfathrebu i ddiogelu'r cyhoedd o fewn fframwaith o fesurau diogelwch llym. |

## BILIAU LLE GALL RHAI DARPARIAETHAU FOD YN BERTHNASOL I GYMRU

| | |
|---|---|
| **Bil Gofal a Chymorth Drafft** | Bil i foderneiddio cyfraith gofal a chymorth oedolion yn Lloegr, a chael un statud newydd yn lle deddfwriaeth hen ffasiwn. Bydd y Bil hwn yn berthnasol i Loegr yn unig, ond bydd rhai darpariaethau yn galluogi cydweithredu ar draws y ffiniau. |
| **Bil Plant a Theuluoedd** | Bil i wella bywydau plant, pobl ifanc a theuluoedd, yn arbennig y rheini sy'n ymdopi ag anghenion addysgol arbennig. Bydd rhai darpariaethau'n berthnasol i'r DU gyfan a gall rhai darpariaethau sy'n berthnasol i'r Comisiynydd Plant effeithio ar Gymru. |
| **Bil Dŵr Drafft** | Bil i ddiwygio'r diwydiant dŵr a gwneud y gyfundrefn gystadleuol bresennol ar gyfer cyflenwi dŵr yn fwy effeithiol. |

## BILIAU AG EFFAITH GYFYNGEDIG AR GYMRU NEU NAD YDYNT YN BERTHNASOL I GYMRU

| | |
|---|---|
| **Bil Archwilio Lleol Drafft** | Bil i gau'r Comisiwn Archwilio a gwneud trefniadau newydd ar gyfer archwilio cyrff cyhoeddus lleol yn Lloegr. |